From: [redacted]
To: PS First Minister Wales/YP Prif Weinidog Cymru
Cc: [redacted]
Subject: FW: Green GEN Cymru - Programme Update
Date: 10 September 2026 17:22:56
Attachments: 31fbb242-c0be-4ee4-a7da-748d1438a4cf.png
234d7357-a1ce-45da-b4ec-3627f8594e98.png
7ff1adfd-2a54-43c0-8c95-897cf6c5d7ce.png
Importance: High

For information.

From: [redacted]
Sent: 10 September 2026 17:20
To: [redacted]
Subject: Green GEN Cymru - Programme Update
Importance: High

Hi [redacted]

Gobethio dy fod yn cadw'n iawn. Ynddiheuriadau am cysylltu yn uniongyrchol. Roeddwn yn awyddus i rhannu newyddion ymlaen llaw am gyhoeddiad y bydd Green GEN Cymru yn ei wneud fel busnes yr wythnos nesaf ynghylch datblygiad ein rhwydwaith trydan.

Rydym wedi bod yn trafod gyda'r Llywodraeth ers peth amser ynghylch datblygiad ein rhaglen. Yn gynharach eleni, gwnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd i amlinellu rhywfaint o'r gwaith peirianneg a dylunio yr oeddem yn ei wneud, gan gynnwys ein hystyriaeth o ddulliau gwahannol o ddarparu seilwaith trydan. Yn fwy diweddar, rydym wedi cyfarfod â swyddogion yn y tîm Ynni, gan gynnwys [redacted] a [redacted] i drafod elfennau o'n hadolygiad.

Rwyf hefyd wedi gyrru ebost i Jona [redacted] i sicrhau bod tîm y Gweinidog yn ymwybodol o'r datblygiadau, o ystyried y diddordeb gwleidyddol a pholisi amlwg mewn seilwaith trydan.

Yfory, byddwn yn ysgrifennu'n ffurfiol at y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet i roi manylion o'r ddatblygiad pwysig sydd wedi dod allan o'r gwaith yna. Wedyn, rydym yn bwriadu gwneud y cyhoeddiad gyhoeddus ddydd Iau nesaf, 17 Medi.

O ystyried natur y mater, roeddwn yn meddwl ei bod yn bwysig cysylltu yn uniongyrchol ac ymlaen llaw. Mae seilwaith trydan, a pheilonau yn benodol, wedi bod yn bwnc sydd wedi cael ei godi yn aml yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog, ac roedd y mater yn cael ei godi'n rheolaidd gyda'r Prif Weinidog yn flaenorol. Felly, roeddwn eisau sicrhau bod swyddfa'r Prif Weinidog yn cael gwybod ymlaen llaw am yr hyn sydd ar ddod, a'r cyd-destun y tu ôl iddo, yn hytrach na gweld y manylion am y tro cyntaf pan fyddant yn dod yn gyhoeddus.

Bydd y cyhoeddiad yn rhoi diweddariad ar ein dull o ddylunio'r rhwydwaith, gan gynnwys y gwaith peirianneg rydym wedi bod yn ei wneud i archwilio atebion seilwaith sy'n cael llai o effaith weledol. Bydd hefyd yn nodi rhai o'r cyfleoedd ehangach y credwn y gallent ddeillio o'n buddsoddiad, yn enwedig i beirianneg, gweithgynhyrchu a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

Rwy'n cydnabod y sensitifrwydd sy'n gysylltiedig â'r mater hwn ac, yn fwriadol, rydym wedi ceisio ymgysylltu â Llywodraeth Cymru cyn gwneud unrhyw gyhoeddiad cyhoeddus.

Byddwn yn fwy na pharod i anfon y datganiad i'r wasg a'r deunyddiau ategol i ti yn gyfrinachol cyn eu cyhoeddi. Yn yr un modd, os byddai'n ddefnyddiol, byddwn yn hapus i gael sgwrs ymlaen llaw a rhoi rhagor o gefndir i ti am y cyhoeddiad a'r rhaglen ehangach.

Cofion,

[redacted]

[redacted]

t: [redacted]
e: [redacted]com w: Green GEN Cymru
a: Floor 2, Hodge House, Guildhall Place, Cardiff, United Kingdom, CF10 1DY

This transmission has been issued by GreenGEN Cymru for the information of the addressee only and should not be reproduced and/or distributed to any other person. If you have received this message in error, please delete it and all copies from your system and notify the sender immediately by return E-mail. We cannot accept any liability for any loss or damage sustained as a result of software viruses and would advise that you carry out your own virus checks before opening any attachment.